



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Abernant  
Abernant  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA33 5RR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

<b>Barn</b>	<b>Yr hyn mae'r farn yn ei olygu</b>
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/08/2013

## Cyd-destun

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Abernant sy'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o'i chwmpas. Nid yw'r ardal lle lleolir yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl, sydd yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol.

Mae 30 disgybl, rhwng tair ac 11 oed, ar y gofrestr gan gynnwys un plentyn meithrin. Derbynnir plant yn amser llawn i'r ysgol yn ystod tymor eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae niferoedd y disgyblion wedi lleihau ychydig ers yr arolygiad diwethaf.

Ychydig iawn o ddisgyblion mae'r ysgol wedi eu dynodi'n rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r canran hwn yn sylweddol is na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn ysgol categori Ac mewn cydsyniaeth â pholisi iaith Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Fe anelir at sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartref tua 35% o'r disgyblion.

Addysgir y disgyblion mewn dau ddsbarth o oed cymysg gan un athro amser llawn a dwy ran amser. Apwyntiwyd y pennaeth presennol yn Medi 1991 ond yn ystod yr arolygiad, pennaeth ysgol gyfagos oedd â gofal am yr ysgol yn ystod absenoldeb y pennaeth.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yng Ngorffennaf 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Abernant yn 2012-2013 yn golygu cyllideb o £4,629 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Caerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Abernant yn safle 19eg o'r 108 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni safonau da;
- disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd da;
- yr addysgu o ansawdd da;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a bod
- partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned leol yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn cyflawni'n dda;
- ymroddiad aelodau'r staff i'r disgyblion dan eu gofal; a
- bod y llywodraethwyr yn dechrau monitro ansawdd yr addysg yn fwy cyson.

Er hynny:

- mae meysydd pwysig i'w datblygu mewn perthynas â rheoli a sicrhau ansawdd;
- nid yw cynllunio ar gyfer y medrau yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a chynnydd parhaus ar draws y cwricwlwm; a
- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion yn yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

- A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn Gymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau disgyblion
- A3 Sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael profiadau dysgu a thargedau sy'n eu hymestyn yn llawn
- A4 Sicrhau fod y proectws ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn bodloni'r gofynion statudol
- A5 Sefydlu trefniadau hunanarfarnu sydd yn adnabod meysydd i'w gwella yn fwy effeithiol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yn y gwersi, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n gynhyrchol ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y nodau dysgu. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn wybodus mewn sawl maes.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn gwrando'n dda ac yn ymateb a chyfrannu'n hyderus yn y gwersi. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd ac mae medrau'r disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym ac yn effeithiol iawn.

Mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r testun. Defnyddiant ystod o strategaethau priodol yn llwyddiannus i fynd i'r afael â geirfa newydd. Gwna llawer o'r disgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa addas a diddorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron bob un disgybl yn gwrando'n ofalus ar eu hathro ac ar ei gilydd. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i ddatblygu'n dda. Ddânt yn gynyddol hyderus yn siarad am eu gwaith, a hynny yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parodrwydd i gynnig ymatebion pan mae athrawon yn eu holi ac mae llawer yn cynnig atebion estynedig yn aml. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd.

Mae llawer yn darllen ystod o destunau'n rhugl ac yn fanwl gywir. Maent yn hyderus wrth ddod o hyd i wybodaeth ac yn ei defnyddio'n ystyrlon mewn sawl maes. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yr un mor hyderus wrth ddarllen Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ail ddrafftio. Mae'r gwaith yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu a'r gallu i baragraffu'n briodol. Gwna disgyblion gynnydd da yn atalnodi eu gwaith. Ar y cyfan, mae safonau cywirdeb gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda. Nid yw gwaith ysgrifennu estynedig rhan fwyaf y disgyblion wedi datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent yn y gwahanol bynciau.

Nid oes adroddiad data ar gyfer 2012 yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwytodaeth am dueddiadau ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd canran y disgyblion 11 oed a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. Amrywiol oedd canlyniadau Cymraeg ac roeddent yn is mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf.

Dros yr un cyfnod, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn Saesneg yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. Ar wahân i 2012, roedd canlyniadau mathemateg hefyd yn uwch. Mewn dwy allan o'r pedair blynedd roedd canlyniadau gwyddoniaeth yn uwch ond ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch mewn Cymraeg.

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros y cyfnod hwn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd y perfformiad mewn Cymraeg, ac ymhob pwnc ar y lefel uwch (lefel 5), yn fwy amrywiol. Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn dros y blynyddoedd diwethaf.

### **Lles: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o beth sydd angen ei wneud i fod yn iach. Mae pawb yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac mae llawer yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'r corff yn iach.

Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda yn ystod y gwersi, amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae rhan fwyaf yn awyddus i ddysgu ac yn canolbwyntio'n dda yn ystod eu gwersi. Gweithiant yn dda gan ddyfalbarhau tra'n gweithio'n annibynnol, mewn parau neu mewn grŵp. Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal am y naill a'r llall.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu'r hyder i werthuso eu gwaith ac yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i'w wella.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion oddeutu 95% sydd yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio yn ddi-dâl. Yr un y mae'r patrwm wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac mae eu llais yn cael effaith ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl o wneud penderfyniadau o fewn yr ysgol wedi cael sylw digonol.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng yr ardal leol a'r ysgol ac mae'r disgyblion yn elwa o'u profiadau yn y gymuned a chydweithio gyda phobl o'r ardal leol tra yn yr ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu ac mae'r cynlluniau gwaith clir yn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae'r cynllunio'n addas ar gyfer gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Nid yw'r cynllunio ar gyfer y medrau yn ddigon manwl i sicrhau datblygiad cynyddol ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe ddarperir ystod o weithgareddau diddorol sydd, ar y cyfan, yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion ond mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu datblygiad medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn Gymraeg a'r Saesneg. Mae gordefnydd o dasgau unfurf i flynyddoedd cyfan yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymestyn disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r holl staff yn cynnig modelau iaith o safon dda i'r disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar ar draws yr ysgol.

Mae profiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy ymweld â ffermydd ac adeiladau hanesyddol lleol.

Ceir darpariaeth foddhaol i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda. Mae perthynas ofalgar yn bodoli rhwng yr athrawon a'u disgyblion ac mae ethos cefnogol yn amlwg yn y ddau ddsbarth.

Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion wybodaeth bynciol dda ac mae'r cymorth wedi'i ffocysu'n glir ac yn cyfrannu'n bwrpasol at anghenion y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi'n fanwl ac yn rhannu'r nod yn ofalus ar ddechrau'r wers. Fe wneir defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol a rhoddir sylw penodol yn y gwersi i ddatblygu'r medrau. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cynhaliol yn ystod gwersi ac yn annog y disgyblion yn rheolaidd i asesu eu gwaith eu hunain. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n gyson gyda sylwadau canmoladwy yn aml; yn yr arfer orau, fe geir sylwadau adeiladol sy'n rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith. Mae'r athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gyda'r disgyblion i osod targedau personol ar gyfer rhif a llythrennedd ond nid yw rhain bob amser yn ddigon penodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o system tracio cynnydd. Mae'r gweithdrefnau cymedrol yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn asesu'r disgyblion yn gywir.



Mae adroddiadau blynyddol i rieni ar gyflawniad a chynnydd eu plant yn bodloni'r gofynion statudol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Rhoddir y gofal gorau ac arweiniad pwrpasol i'r holl ddisgyblion. Mae trefniadau da yn bodoli i gefnogi eu hiechyd a'u lles ac i annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'u cymuned. Caiff manteision byw yn iach a phwysigrwydd cadw'n heini eu hyrwyddo'n effeithiol.

Mae'r sesiynau cyd addoli cyson yn cefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn hynod o lwyddiannus ac yn hybu parch a sensitifrwydd at eraill. Mae gweithgareddau ar y cyd gyda'r eglwysi lleol yn atgyfnerthu hyn ymhellach. Mae'r pwyslais amlwg a roddir ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn cyfrannu'n dda at greu ymdeimlad o gymdeithas agos yn yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol er lles y disgyblion.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn bodoli yn yr ysgol. Nodwedd amlwg yw'r ymdeimlad teuluol sy'n seiliedig ar weithredu parch a hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i bawb i'r holl weithgareddau. Mae'r staff yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch tuag at amrywiaeth yn effeithiol drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol ac amser cylch.

Mae'r gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol, megis bwlio, yn bwrpasol, ond prin iawn yw'r angen i'w defnyddio. Addysgir y disgyblion yn effeithiol i barchu a gofalu am eu hamgylchedd.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer nifer y disgyblion. Fe wna'r ysgol y defnydd gorau o'r adeilad a'r tir. Mae'r gofod allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a gardd yr ysgol yn adnoddau deniadol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hybu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r safle cyfan yn hygyrch i bobl ag anabledd.

Mae'r adeiladau a'r tir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig amgylchedd diogel a diddorol.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Dros y ddwy flynedd diwethaf bu'r ysgol drwy gyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth ac nid yw'r cyfeiriad strategol yn glir. Mae'r pennaeth mewn gofal yn cydweithio'n effeithiol â'r staff a'r llywodraethwyr i arwain yr ysgol.

Mae gan bob aelod staff swydd ddisgrifiad penodol ac maent i gyd yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn rhannu gwerthoedd cyffredin yn effeithiol. Maent wedi creu awyrgylch hapus lle mae cyfraniad a photensial pob disgybl yn cael ei werthfawrogi. Adlewyrchir hyn yn yr ethos cadarnhaol ar draws yr ysgol a chaiff effaith dda ar gyflawniad y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau cyfredol sydd yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y disgyblion ac yn arwain gwaith yr ysgol yn briodol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o ddata perfformiad i nodi nodweddion da'r ysgol ond nid yw meysydd i'w datblygu er mwyn gwella safonau yn cael eu hadnabod yn ddigon penodol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r trefniadau diweddar i ymweld â'r ysgol yn gyson i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth rhai o'r llywodraethwyr o fywyd pob dydd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw gallu'r corff llywodraethol i ddwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ddarpariaeth ac i herio fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n llawn.

Nid yw'r prospectws na'r adroddiad blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus ac fe roddir sylw digonol i wella llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae asesu ar gyfer dysgu ar waith o fewn gwersi ac yn cyfrannu'n addas tuag at wella dealltwriaeth y disgyblion o ba mor dda maent yn ei wneud.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn rhoi sylw priodol i ddadansoddi data ond nid ydynt yn canolbwyntio digon ar fonitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn rhieni, disgyblion, athrawon, a llywodraethwyr. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn ddigon arfarnol, nac ychwaith yn rhoi darlun clir o bob agwedd o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi llwyddo i adnabod nifer o gryfderau ac agweddau y mae angen sylw arnynt.

Mae peth cysylltiad rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau a meini prawf mesuradwy,

gweithgareddau addas a dulliau monitro a chofnodi cynnydd priodol. Mae aelodau'r staff yn ymwybodol o'r blaenoriaethau a'u cyfrifoldebau hwy ar gyfer eu gweithredu. Mae rôl y llywodraethwyr i fonitro cynnydd yn datblygu yn briodol.

Mae'r ysgol wedi rhoi sylw addas i fwyafrif argymhellion yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd wedi ei wneud i wella safonau ysgrifennu estynedig yn Saesneg nac i rymuso'r trefniadau hunanarfarnu er mwyn adnabod yn fanwl pa ddiffygion sydd angen sylw.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ac yn manteisio'n llawn ar bob cyfle i wella eu medrau addysgu. Nid yw'r ysgol eto yn rhan o rwydwaith dysgu proffesiynol tu hwnt i'r ysgol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn dda. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac yn codi arian sylweddol i gronfa'r ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i wella darpariaeth allanol a gwella cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae'r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda'r gymuned leol ac mae'r disgyblion yn cymryd rhan llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol megis gwasanaethau yn yr eglwys a'r capel.

Mae ystod addas o asiantaethau a gwasanaethau allanol, fel y gwasanaeth iechyd, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae cyswllt cryf rhwng ysgolion cyfagos i rannu adnoddau TGCh a chyfarpar chwaraeon.

Mae'r ysgol wedi elwa yn ddiweddar o'r bartneriaeth effeithiol a llwyddiannus sy'n bodoli gyda swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae'r cydweithio llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn hwyluso trosglwyddiad disgyblion blwyddyn 6 i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal i gymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i ddarparu hyfforddiant ar y cyd. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff i addysgu'r holl gwricwlwm. Fe wneir defnydd da o gymorthyddion dosbarth ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r disgyblion.

Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sy'n arwain at gyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau addysgu a dysgu ac mae'n eu rheoli'n effeithiol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus iawn, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried deilliannau disgyblion a'r defnydd a wneir o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Nid oes adroddiad data ar gyfer 2012 yn yr adroddiad gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd canran y disgyblion 11 oed a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. Amrywiol oedd canlyniadau Cymraeg ac roeddent yn is na'r cyfartaleddau yma mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf.

Dros yr un cyfnod, roedd nifer y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn Saesneg yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. Ar wahân i 2012, roedd canlyniadau mathemateg hefyd yn uwch. Mewn dwy allan o'r pedair blynedd roedd canlyniadau gwyddoniaeth yn uwch ond ni chyflawnodd yr un disgybl y lefel uwch yn Gymraeg.

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros y cyfnod hwn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Amrywiol oedd canlyniadau Cymraeg, o fod yn y 25% uchaf yn 2009 a 2011, i fod yn y 25% isaf yn 2010 a 2012.

Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) hefyd yn amrywio o fod yn 25% uchaf mewn Saesneg a mathemateg yn 2009 i 2011 ond yn y 50% isaf yn 2012. Mewn gwyddoniaeth, roedd y canlyniadau yn y 25% uchaf yn 2009 a 2011 ond yn y 25% isaf yn 2010 a 2012. Roedd canlyniadau Cymraeg dros yr un cyfnod yn gyson yn y 25% isaf.

Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn dros y blynnyddoedd diwethaf.

## **Atodiad 2**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

##### **Derbyniwyd 14 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr.**

Mae pob rhiant yn datgan bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol. Maent hefyd yn dweud bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda a bod aelodau'r staff yn trin bob plentyn yn deg a gyda pharch. Teimlai pawb bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Teimlai bron bob un bod yr addysgu'n dda a bod aelodau'r staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. Maent yn dweud bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Dywedant fod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi unrhyw broblem. Teimlai bron bob un bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron bob un rhiant yn dweud eu bod yn fodlon â'r ysgol ac o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywedant hefyd fod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae bron bob un yn datgan eu bod yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae'r rhan fwyaf yn dweud fod yna amrywiaeth dda o weithgareddau a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

Mae ychydig dros hanner yr atebion yn is na chyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

#### **Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

##### **Llenwyd yr holiaduron gan 22 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.**

Mae pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent i gyd yn dweud bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Maent i gyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach.

Mae bron bob un yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio ac yn gwybod pwy i droi ato os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yna ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Mae llawer yn dweud bod nifer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae ychydig yn teimlo nad yw plant yn ymddwyn yn dda bob amser fel y gallant wneud eu gwaith ac mae oddeutu hanner o'r farn nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Yn hanner y cwestiynau, mae'r atebion yn cyfateb yn dda i gyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

### **Atodiad 3**

#### **Y tîm arolygu**

Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Ruth Rhydderch	Arolygydd Lleyg
Jano Owen	Arolygydd Cymheiriaid
Aled Davies	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## **Rhestr termau – Cynradd**

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.